# Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
## 2 Gorffennaf 2020
## Cyfarfod Teams Microsoft

## Nodyn o'r cyfarfod

### Mynychwyr:
Jane Hutt AC – y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Ruth Marks – Prif Weithredwr, CGGC
Anna Nicholl – CGGC
Ben Lloyd – CGGC
Felicitie Wallis – CGGC
Fiona Harris – CGGC
Helene Hayes – Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol
Karen Whitfield – Cyswllt Amgylchedd Cymru
Kate Young – Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Lles a Chwaraeon
Susie Ventris Field – Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Kate McColgan – Crefydd
Andrea Cleaver – Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
Matthew Williams – Cymdeithas Chwaraeon Cymru
Derek Walker – Menter Gymdeithasol
Owen Evans – Plant yng Nghymru
Patience Bentu – Lleiafrifoedd Ethnig
Sandy Clubb – Gwirfoddoli
Jamie Birt – Cyflogaeth
Rocio Cifuentes – Lleiafrifoedd Ethnig
Kathryn Robson – Addysg a Hyfforddiant
Iestyn Wyn – Cyfeiriadedd Rhywiol
Carl Cooper – Cyfryngwyr
San Leonard – Menter Gymdeithasol
Catherine Fookes – Rhywedd
Elin Maher – Yr Iaith Gymraeg
Chris Johnes – Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
Gethin Rhys – Crefydd
Paul Glaze – Ieuenctid
John Puzey – Tai
Victoria Lloyd – Pobl Hŷn

**Swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol:**
Alyson Francis – Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cymunedau
Chris Buchan – Pennaeth tîm Cymunedau a'r Trydydd Sector
Paul Dear – yr Is-adran Cymunedau
Aaron Fortt – Tîm y Trydydd Sector
Hannah Fisher -
Helen Brown – Tîm y Trydydd Sector
Jenna Pugh – Tîm y Trydydd Sector

## Eitem 1 ar yr agenda – Croeso a Chyflwyniad
### Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Agorodd y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip (DW) y cyfarfod drwy groesawu pawb a diolch i gynrychiolwyr Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector am ddod i drydydd cyfarfod y Cyngor Partneriaeth ers dechrau’r cyfnod clo. Nododd y DW o’r newydd fod cynrychioli'r trydydd sector ar draws Llywodraeth Cymru yn rhan hanfodol o'i gwaith, ond cydnabu hefyd y rôl bwysig y mae Ruth Marks (RM) wedi bod yn ei chwarae o ran cynrychioli'r sector yn rhagorol mewn cyfarfod wythnosol a gynhelir gyda Gweinidogion eraill Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Prif Swyddog Meddygol.

Esboniodd y DW, er ein bod ni yng nghanol yr argyfwng o hyd, fod hanner cyntaf y cyfarfod Cyngor Partneriaeth hwn yn rhoi cyfle i ni ganolbwyntio ein gwybodaeth a'n profiadau ar y broses "adfer" a'r rôl hanfodol sydd gan y sector i'w chwarae wrth sicrhau 'adferiad' cywir a theg. Bydd ail hanner y cyfarfod yn edrych ar y materion mwy cyfredol y mae'r sector yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig.

## Eitem 2 ar yr agenda – Gwneud Gwahaniaeth Mwy Gyda'n Gilydd, dod dros Covid 19 -

a. **Effeithiau a blaenoriaethau ar gyfer y sector**
b. **Blaenoriaethau ar gyfer gweithio gyda'n gilydd.**

Cyflwynodd y DW Eitem 2 ar yr agenda drwy ddweud bod y pandemig wedi tynnu sylw at faterion allweddol, gwendidau, asedau a chyfleoedd ar gyfer y sector yng Nghymru a all fod yn sail i’r "adferiad" ac i waith blaengynllunio strategol ar gyfer y tymor byr, canolig a hir. Mae angen i waith blaengynllunio ystyried sut y bydd materion eraill yn effeithio ar gymunedau, fel gadael yr UE, agendâu amgylcheddol a hefyd y nifer fawr o gymunedau yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd diweddar. Dyma pam y mae'r DW am barhau i gysylltu'n rheolaidd â phartneriaid fel y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol, sy'n hollbwysig i'w helpu hi a Llywodraeth Cymru i ddeall yr hyn sy'n digwydd yng nghymunedau Cymru ac yn y trydydd sector ledled Cymru.

Roedd RM yn cydnabod pwysigrwydd perthynas waith dda gyda phartneriaid a diolchodd i'r DW a swyddogion Llywodraeth Cymru am weithio gyda'r trydydd sector mewn awyrgylch cydweithredol a chefnogol, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn. Nododd RM fod amrywiaeth cynrychiolwyr y Cyngor Partneriaeth yn cynnig gwahanol leisiau sy'n dyst i’r amrywiaeth o fewn y sector, ac y bydd yn helpu i lywio sut y byddwn yn symud ymlaen yn gadarnhaol gyda'n gilydd, gan ddal gafael ar y llinynnau arian sydd wedi datblygu yn sgil y dyddiau cymylog hyn.

Rhoddodd Anna Nicholl (AN) gyflwyniad byr*: Dod dros Covid-19: trafodaeth y Cyngor Partneriaeth* ar y meysydd canlynol:

- Effaith COVID ar y Gymdeithas;
- Effaith COVID ar y sector gwirfoddol;
- Dysgu allweddol o'r argyfwng;
- Posibiliadau ar gyfer newid cadarnhaol a negyddol;

- Cynllunio ar gyfer sut y gall Llywodraeth Cymru a'r sector wneud gwahaniaeth mwy gyda'i gilydd.

Diolchodd y DW i AN am y cyflwyniad defnyddiol iawn. Mewn ymateb i'r cyflwyniad, ymhelaethwyd ar y materion canlynol gan gynrychiolydd enwebedig y Cyngor Partneriaeth:

**Ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau cydnerth (Kate Young a Carl Cooper)**

Er bod llawer o gyrff y trydydd sector yn pwysleisio eu bod yn dal i fod yn y cyfnod ymateb, rydym yn awr yn gweld symudiad i'r cam adfer. Yn ystod yr argyfwng bu'n rhaid i ni weithiau weithredu heb ymgysylltu â'n cymunedau, ond mae'n rhaid i ni osgoi gwneud hyn yn norm – wrth i ni ddilyn y broses adfer mae angen i ni weithio ochr yn ochr â nhw, gan ddefnyddio'r sector i sicrhau bod "llais y dinesydd" yn rhan o’r cynllun adfer.

Un o'r pethau cadarnhaol sydd wedi deillio o'r pandemig hwn (y mae angen i ni ei gadw) yw'r gostyngiad mewn biwrocratiaeth, sydd wedi galluogi sefydliadau i ymateb yn gyflym i anghenion cymunedau a chanolbwyntio ar ddatrys problemau. Rydym hefyd wedi gweld proffil y trydydd sector a gwirfoddoli yn cael ei godi.

Wrth symud ymlaen, bydd rhai o'r heriau yn ymwneud â'r ffordd y byddwn yn ailgyflwyno lleisiau dinasyddion i'r broses o wneud penderfyniadau, a sicrhau bod lleisiau penodol (e.e. gofalwyr) yn cael eu clywed. Bu'n anodd ymgysylltu â gofalwyr erioed oherwydd prinder amser rhydd sydd wedi lleihau ymhellach gyda'r pandemig hwn. Bydd cynnal y berthynas â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau statudol eraill yn hanfodol i sicrhau bod llais y sector yn cael ei glywed – rhaid parhau â'r sgwrs onest ac agored ddwy ffordd y mae'r sector wedi'i chael â Gweinidogion a swyddogion y Llywodraeth dros y tri mis diwethaf.

Mae cymaint o straeon anhygoel ar draws Cymru o weithio mewn partneriaeth rhwng sectorau. Fodd bynnag, mae hyn yn codi'r cwestiwn ynglŷn â pha fath o berthynas y mae Llywodraeth Cymru am ei chael â'r trydydd sector yn y dyfodol. Er bod deddfwriaeth ac arweiniad da, sy'n rhoi sedd wrth y bwrdd i'r sector ac sy'n annog dulliau cyd-gynhyrchiol, mae gennym hefyd amgylchedd sy'n cael ei 'farchnadoli' a phrosesau tendro cystadleuol sy'n torri ar draws yr egwyddorion hyn ac yn sicrhau nad yw'r sector yn bartner cyfartal. Mae'r Gronfa Gofal Integredig yn enghraifft dda, sydd wedi cyflawni cryn dipyn wrth weithio mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Fodd bynnag, er mwyn parhau â'r gwaith hwn mae gwasanaethau'n cael eu rhoi allan i dendr. Mae angen i ni archwilio a yw'r model 'marchnadoli' yn dal i gydweddu â'r hyn yr ydym ei eisiau yng Nghymru, ynteu a yw'n tanseilio'r gweithio mewn partneriaeth y mae COVID wedi dangos i ni ei fod yn bosibl?

**Anghydraddoldebau - (Catherin Fookes a Rhian Davies):**

Mae anghydraddoldebau wedi'u gwaethygu gan COVID, ac mae grwpiau penodol (menywod, pobl anabl, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a LGBT+) sydd wedi cael eu heffeithio'n anghymesur. Fodd bynnag, mae yna ffyrdd cadarnhaol o oresgyn hyn, os dilynwn drywydd adferiad cyfiawn, gwyrdd a ffeministaidd gyda dull "gofal, gofal, gofal". Mae'r sefyllfa bresennol yn rhoi'r cyfle i ni bwysleisio rôl y Ddeddf Cydraddoldeb y dylid ei hystyried wrth ddatblygu pob polisi – gan sicrhau'r ymgysylltiad a'r cyfranogiad wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar bob lefel (gan gynnwys y lleol). Gall Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Gweithio ar draws sectorau a'r adferiad economaidd (Derek Walker):**

Rydym wedi gweld newid gwirioneddol yn ystod yr argyfwng o ran deall yr hyn sy'n bwysig i ni a'r hyn rydym yn ei werthfawrogi. Oherwydd hyn, mae'r sector yn gweld llawer mwy o ymwneud â'i faterion nag erioed o'r blaen – mae drysau wedi'u hagor a oedd wedi'u cau yn flaenorol. Rydym am i "adferiad" edrych yn wahanol, felly mae angen math gwahanol o economi a naratif economaidd arnom, gyda gwahanol fathau o ddangosyddion sy'n ymwneud yn fwy â lles na CMC.  Cafwyd mwy o ymgysylltu â'r trydydd sector a sectorau eraill, gyda llawer o sefydliadau yn dod o hyd i gyfleoedd newydd i weithio gyda phartneriaid newydd. Rhaid i'r ffordd newydd hon o weithio barhau yn y dyfodol – mae angen dulliau beiddgar a gwahanol arnom, a bydd deddfwriaeth Partneriaeth Gymdeithasol yn bwysig.

**Chris Johnes**

Mae llawer o gymunedau wedi canfod eu bod yn symud o'r naill argyfwng i'r llall, i helpu'r cymunedau hyn. Mae angen inni ystyried sut y gallwn weithio ar draws pob sector gyda'n gilydd i helpu'r cymunedau hyn, ac mae gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran hwyluso gwell perthynas.

**DMCW**

Diolchodd y DW i Anna am gyflwyniad ardderchog ac am y pwyntiau gwerthfawr a wnaed gan gyfranwyr.
Nododd y DW o'r newydd mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chydraddoldeb oedd y prif ystyriaethau wrth fwrw ymlaen â hyn a bod yn rhaid atgoffa'r sector economaidd yn aml o bwysigrwydd y trydydd sector a phartneriaethau cymdeithasol.

Nododd y DW, er y bydd gan y sector a'r Llywodraeth, yn gwbl briodol, safbwyntiau gwahanol ar rai o'r materion, ei bod yn hanfodol nawr bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd gymaint â phosibl, gan ddefnyddio dull cyd-gynhyrchiol, fel ein bod yn dod o hyd i dir cyffredin.

Nododd y DW mai'r Cyngor yw'r corff naturiol i oruchwylio a galluogi dull cydgysylltiedig ar gyfer gweithredu effeithiol gan y trydydd sector, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill. Roedd y DW yn teimlo y gallai'r wybodaeth sydd gennym erbyn hyn drwy waith caled pawb ddarparu sail gadarn ar gyfer datblygu strategaeth a chynllun gweithredu'r trydydd sector ar gyfer y tymor byr, canolig a hir.

Nododd y DW y bydd angen i unrhyw gynllun o'r fath ar gyfer adfer y trydydd sector gydnabod difrifoldeb yr effeithiau negyddol gan achub ar y cyfleoedd ac, os yn bosibl, diogelu cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y cyfnod clo, megis gwell cysylltiadau rhwng y cyhoedd a'r trydydd sector mewn sawl maes.

Bydd angen i'r cynllun hefyd ystyried amrywiaeth o ddatblygiadau eraill sy'n effeithio ar ein cymunedau: trefniadau pontio'r UE; llifogydd; cytundebau masnach a'r perygl o ehangu anghydraddoldeb. Bydd angen iddo fod yn hyblyg hefyd: os yw'r misoedd diwethaf wedi dysgu unrhyw beth inni, dyma fe: ni allwn fod yn siŵr beth sydd ar y gorwel, hyd yn oed yn y dyfodol agos.

Fe wnaeth y DW ddiolch i bawb am eu gwaith caled hyd yn hyn ac egluro ei bod yn sylweddoli bod angen peth amser a lle ar gyfer trafodaeth bellach, yn y cyfarfod hwn a gyda'ch rhwydweithiau ehangach. Fodd bynnag, pwysleisiodd y DW wrth y Cyngor fod angen hefyd ymdeimlad o frys i gytuno ar flaenoriaethau, amserlenni a mecanweithiau ar gyfer gweithredu ymarferol os yw'r sector yn mynd i chwarae'r rôl hollbwysig o ran adferiad, a thu hwnt i hynny, y gwyddom fod angen iddo ei wneud.

## Eitem 3 ar yr agenda – diweddariadau allweddol o ran Covid gan Lywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector.

Rhoddodd y DW y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgarwch sy’n ymwneud â chyfrifoldebau ei phortffolio hi, gan gynnwys:

- Gwelwyd llif cyson o geisiadau i'r ddwy brif gronfa gymorth, ond maent wedi dechrau lleihau yn yr wythnosau diwethaf.

- Ceisiadau cymwys i Gronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol am gyfanswm o dros £8.5 miliwn. O'r rheini a gymeradwywyd, mae hyn wedi ein galluogi i gefnogi dros 4,800 o wirfoddolwyr, gan sicrhau budd i dros 335,000 o unigolion.

- Ceisiadau cymwys i Gronfa Gadernid y Trydydd Sector am gyfanswm o dros £4.1 miliwn sy'n cefnogi bron 60 o sefydliadau.

- Ar 22 Mehefin, cyhoeddodd is-grŵp economaidd-gymdeithasol BAME Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Covid 19 ei adroddiad (Ubele Initiative) ar y ffactorau economaidd-gymdeithasol y credir eu bod yn cyfrannu at gyfradd marwolaethau uchel pobl dduon, Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

- Mae'r adroddiad yn gwneud mwy na 30 o argymhellion i fynd i'r afael â'r risgiau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol a amlygir ganddo. Bydd yr argymhellion sydd wedi deillio o'r themâu yr ymchwiliwyd iddynt yn cael eu datblygu fel rhan o Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod £1.575 miliwn ychwanegol ar gael i'r sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan ddod â chyfanswm y cyllid refeniw ar gyfer y sector yn 2020-21 i dros £6.8 miliwn.

Rhoddodd RM ddiweddariad byr o'r sector gan gynnwys:
Y cynnydd mewn gwirfoddoli (ffurfiol ac anffurfiol a'r cynnydd mewn grwpiau cyd-gymorth); gwydnwch (a'r cyferbyniad ar draws nodweddion gwarchodedig); ac anawsterau cydbwyso cydberthnasau (yn enwedig ar draws meysydd nad ydynt wedi'u datganoli lle na fu mor hawdd cael deialog dwy ffordd).
Tynnodd RM sylw eto at yr hyn a ddywedodd y DW ynglŷn â lefel y gweithgarwch a nododd fod ymrwymiad gan y sector i weithio'n gyflym gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae RM hefyd yn nodi y byddai'n ddefnyddiol trefnu cyfarfod Cyngor Partneriaeth arall ym mis Medi/Hydref i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

## Eitem 4 ar yr agenda – unrhyw fater arall

Bu Nick Bates o dîm Covid-19 Llywodraeth Cymru yn siarad â'r Cyngor Partneriaeth ynghylch agor canolfannau cymunedol fel rhan o'r broses o lacio cyfyngiadau.

Dywedodd Kate Young y bydd agor cyfleusterau a gwasanaethau yn cael ei groesawu gan y bydd yn ysgafnhau'r pwysau ar bobl fel gofalwyr.

Eglurodd y DW fod Llywodraeth Cymru yn deall pwysigrwydd agor y mannau hyn, a dyna pam eu bod eisoes wedi edrych ar agor adeiladau ffydd. Nododd y DW ei bod yn hanfodol bod y trydydd sector yn rhan o'r paratoadau i lacio'r cyfyngiadau.

Mae hyn hefyd yn cynnwys cyfranogiad y sector mewn prosesau Profi, Olrhain a Diogelu wrth i ni ystyried sut yr ydym yn cefnogi gallu'r sector i ymateb yn gyflym a chymryd rhan mewn unrhyw ymatebion brys a allai godi o ganlyniad i achosion lleol a gwaith Profi, Olrhain a Diogelu.

Gofynnwyd i'r Cyngor Partneriaeth anfon e-bost at flwch Ymholiadau'r Trydydd Sector gydag unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas ag agor canolfannau cymunedol.

### Camau

- Cyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth i'w gynnal ym mis Medi/Hydref
- Y Cyngor Partneriaeth a swyddogion LlC i sefydlu gweithgor i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil argyfwng Covid-19, a sut y gellir eu cymhwyso dros y tymor byr, canolig a hir (gan gynnwys yr angen am ddatganiad ar y cyd o bosibl).